# Adroddiad ar yr ymweliad ag Israel a'r Lan Orllewinol

Roedd tri diben i'r ymweliad. Y cyntaf oedd cydnabod a choffáu cyfraniad Adran 53 (Cymru) i gipio Jerwsalem ym 1917. Yr ail oedd ymweld â'r rhanbarth i ganfod ffeithiau a'r olaf oedd cydnabod a dathlu ein treftadaeth Gristnogol ein hunain a'n cysylltiadau â Jerwsalem.

## Coffáu Adran 53 (Cymru)

Fel cyn-weinidog ac fel aelod o'r grŵp hollbleidiol ar y lluoedd arfog, mae gennyf ddiddordeb hirsefydlog yn safle ein lluoedd arfog yn ein cymdeithas. Rwyf wedi cefnogi a chyfrannu'n frwd at goffâd Cymru'n Cofio o'r prif ddyddiadau o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn anochel, roedd coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn canolbwyntio ar y Lan Orllewinol a maes y gad yn Ewrop ac effaith hyn oedd peidio â chydnabod yn llawn y cyfraniad Cymreig at yr ymgyrch ym Mhalesteina a maes y gad yn fwy cyffredinol yn y Dwyrain Canol.

Ym mis Rhagfyr 1917, milwyr Adran 53 (Cymru) oedd y rhai cyntaf i fynd i mewn i Jerwsalem. Ciliodd y Twrciaid Otomanaidd o'r ddinas gyda'r hwyr ar 6 Rhagfyr a, phan nesaodd Adran Cymru at Borth Jaffa yn y bore ar 7 Rhagfyr, daeth yn amlwg yn fuan nad oedd y ddinas yn cael ei hamddiffyn. Cymerodd y milwyr Cymreig yr hen ddinas ar unwaith a rhoi gwarchodfilwr wrth Borth Jaffa. Drwy wneud hynny, hwy oedd y milwyr Gorllewinol cyntaf i warchod pyrth Jerwsalem ers croesgadau'r 11eg ganrif. Mae hyn yn rhan arwyddocaol iawn o'n hanes milwrol ac mae'n un sydd bron yn gwbl anhysbys.




Ddydd Llun 25 Chwefror, gwnaethom osod a dadorchuddio plac yng ngardd Christchurch yng nghanol yr hen ddinas. Christchurch yw'r unig eglwys Anglicanaidd yn y ddinas ac mae o fewn waliau'r ddinas, ger Porth Jaffa. Cynhaliwyd seremoni fach gyda darlleniadau a darllenwyd neges gan y Brigadydd Alan Richmond, Prif Swyddog, Brigâd 160. Bydd y plac hwn bellach yn gofeb barhaol i weithredoedd a chyflawniadau Adran 53 (Cymru) wrth ryddhau Jerwsalem. Pan fydd wedi'i osod, bydd hefyd yn cynnwys yr unig eiriau yn y Gymraeg sydd i'w gweld yn barhaol yn hen ddinas Jerwsalem.

## Dathlu a nodi'r cysylltiadau crefyddol rhwng Cymru a Jerwsalem

Creodd y nawdd a gafwyd gan Sefydliad Evan Roberts hefyd y lle i gydnabod ein treftadaeth Gristnogol Gymreig ein hunain a'r cysylltiadau ysbrydol rhwng Cymru a Jerwsalem. Mae'r plac a godwyd yn yr hen ddinas o lechen Gymreig ac wedi'i arysgrifio â baner Dewi Sant a chafodd ei fendithio yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi cyn gadael Cymru.

Nod yr arysgrif hon yw cydnabod y cysegrwyd Dewi Sant fel Archesgob yn Jerwsalem ac y rhoddwyd allor gludadwy gysegredig, ffon, cloch a thiwnig iddo cyn gadael Jerwsalem i ddychwelyd i Gymru. Mae'r allor gludadwy, y credir mai'r allor hon ydyw, yn sefyll yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi hyd heddiw. Roedd y cysylltiadau hanesyddol ac ysbrydol hyn yn rhan bwysig o'r ymweliad a byddem yn gobeithio y gallwn barhau i ddathlu a chryfhau'r cysylltiadau hyn yn y dyfodol.

## Deall gwleidyddiaeth ddatblygol Israel a'r tiriogaethau meddianedig

Mae'r gwrthdrawiad rhwng Israel a'r Palesteiniaid yn un o'r gwrthdrawiadau hwyaf, anoddaf a mwyaf anhydrin yn y byd. Rhoddodd y cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr Llywodraeth Israel a'r Awdurdod Palesteinaidd gipolwg hanfodol ar y syniadau sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd gan fod Israel yn wynebu etholiad cyffredinol gydag ansicrwydd sylweddol a lle nad yw'r Awdurdod Palesteinaidd yn gallu darparu'r arweinyddiaeth angenrheidiol i bobl Palesteina ddod i gytundeb cyfartal ag Israel. Yn ystod yr ymweliad, cyfarfuom ag Emmanuel Nachshon, Gweinyddiaeth Materion Tramor yn Llywodraeth Israel, a gwnaethom ymweld â Ramallah i gael trafodaethau wyneb yn wyneb â'r Awdurdod Palesteinaidd.

Y casgliadau y daethpwyd iddynt o siarad â'r cynrychiolwyr hyn oedd bod gwactod yn y broses ar hyn o bryd. Heb arweinyddiaeth glir gan Lywodraeth yr Unol Daleithiau na chan yr UE, mae'n anodd gweld sut y gall y pwerau rhanbarthol eu hunain ddod i unrhyw gytundeb heddwch yn y dyfodol agos. Roedd yr holl gyfarfodydd gwleidyddol yn ddefnyddiol iawn o ran cael dealltwriaeth fras a chyffredinol o safbwyntiau'r pleidiau gwahanol. Mae'r ymweliadau â ffin Gaza ac Ucheldiroedd Golan, yn ogystal â'r cyfle i drafod y sefyllfa filwrol a gwleidyddol â Lluoedd Amddiffyn Israel ac eraill, wedi rhoi dealltwriaeth well o lawer i ni o'r sefyllfa ar lawr gwlad. Ar yr un pryd, mae teithio drwy'r Lan Orllewinol ac ymweld â Ramallah wedi rhoi syniad go iawn i ni o'r materion diogelwch a'r straen a wynebir gan lawer o Balesteiniaid o ddydd i ddydd.



## Cysylltiadau diwydiannol a thechnolegol rhwng Israel a Chymru



Roedd y cyfle i gwrdd ag uwch arloeswyr a rheolwyr yn rhwydweithiau arloesedd Israel yn amhrisiadwy. Mae'r cyfle i ddysgu sut y mae Israel yn hyrwyddo arloesedd mewn meysydd gwahanol - o feddygaeth i amaethyddiaeth â llawer o wersi i Gymru. Mae'r strwythurau cymorth ar gyfer diwydiannau newydd a datblygol ac i roi cymorth i arloeswyr yn amlwg yn rhywbeth sydd wedi creu trafferth i Gymru dros flynyddoedd lawer.

Roedd y cyfarfod â Ms Nili Shalev, Gweinyddiaeth yr Economi yn Llywodraeth Israel, yn arbennig o ddefnyddiol am iddo roi cipolwg gwirioneddol i ni ar bolisïau a dull gweithredu Llywodraeth Israel o ran hyrwyddo arloesedd a'r strwythurau sydd ar waith i fasnacheiddio ymchwil academaidd. Mae hyn i gyd yn cynnig gwersi pwysig iawn i Gymru a dull gweithredu Cymru o ran arloesedd a datblygiad economaidd. Gall hyn ddod yn arbennig o bwysig yn y dyfodol o ran sut y byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno polisi ar ôl Brexit.

## Gwrth-Semitiaeth

Mae dyfodiad gwrth-Semitiaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn rhywbeth sydd wedi anffurfio'r ddadl wleidyddol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru. Fel Aelod Cynulliad Llafur Cymru, mae methiant fy mhlaid wleidyddol fy hun i fynd i'r afael â gwrth-Semitiaeth yn effeithiol wedi peri andros o ofid, siomedigaeth a chywilydd i fi.

Roedd yr ymweliad â Chofeb Holocost Yad Vashem yn brofiad pwerus ac ingol a roddodd ddealltwriaeth well i mi o gyd-destun hanesyddol yr holocost Natsïaidd, yn ogystal â'i etifeddiaeth ddiwylliannol barhaus heddiw. Roedd hefyd yn hanfodol i'n hatgoffa nad oedd gwrth-Semitiaeth wedi dechrau yn Auschwitz ond iddi ddechrau gyda siofiniaeth a rhagfarn. Mae peryglon gwrth-Semitiaeth

yng Nghymru heddiw yn cynyddu ac rwy'n gryf o'r farn bod dyletswydd a chyfrifoldeb ar yr holl Aelodau i ddeall gwreiddiau hanesyddol a diwylliannol gwrth-Semitiaeth drostynt eu hunain er mwyn i ni roi'r polisïau ar waith a fydd yn amddiffyn pobl Iddewig sy'n byw yng Nghymru neu'n ymweld â Chymru, yn ogystal â chael gwared ar staen gwrth-Semitiaeth o'n trafodaethau gwleidyddol a'n dadleuon gwleidyddol cenedlaethol.

## Hyrwyddo heddwch



Yn amlwg, nid oes cyfle i unrhyw un o'n sefydliadau cenedlaethol gael rôl realistig wrth hyrwyddo'r broses heddwch. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallem gael rôl wrth hyrwyddo heddwch rhwng pobloedd. Un o rannau anoddaf y gwrthdrawiad presennol yw mai prin iawn y caiff pobl Israel a Phalesteina gwrdd â'i gilydd mewn gwirionedd. Maent yn byw mewn cymunedau neu aneddiadau ar wahân ac ni chaniateir llawer o symud rhwng y cymunedau hynny. Roedd yr ymweliad â Kfar Azza ar y ffin â Gaza yn gyfle i ddeall yr anawsterau a'r risgiau o fyw mor agos at ardal lle y mae gwrthdrawiad gweithredol.

Mae cyfle yma i ddefnyddio chwaraeon neu weithgareddau cymdeithasol eraill i feithrin cysylltiadau personol a dealltwriaeth rhwng pobloedd. Roedd yr ymweliad â Chanolfan Heddwch Shimon Peres yn drawiadol gan ei bod yn amlwg yn ceisio hyrwyddo'r ddealltwriaeth hon a gall fod yn bartner i ddatblygu menter o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru wedi arloesi gwaith yn ei rhaglen Cymru o Blaid Affrica sydd wedi llwyddo i feithrin ac atgyfnerthu perthynas, yn enwedig rhwng Cymru ac Wganda. Mae sawl prosiect yn Israel a allai gynnig gwersi i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r rhaglenni hyn. Rwyf hefyd yn credu y gall y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â phartneriaid posibl yng nghymdeithas ddinesig Cymru, greu a datblygu rhaglen a allai gyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth. Yn sicr, rwy'n credu bod angen i ni drafod sut y gall hyn fod yn bosibl a hoffwn fynd ati i drafod unrhyw gyfraniad y gallwn ei wneud fel cenedl ac fel Cynulliad Cenedlaethol.

## Casgliadau

Roedd yn fraint cymryd rhan wrth ddadorchuddio'r plac a choffáu cyfraniad Adran 53 (Cymru) a'i rhan wrth ryddhau Jerwsalem. Roedd noddi'r ymweliad gan Sefydliad Evan Roberts yn amhrisiadwy wrth helpu i ailddarganfod y dreftadaeth Gristnogol sy'n diffinio ein hanes a'n diwylliant a'r cysylltiadau parhaus, yn enwedig rhwng Cymru a Jerwsalem. Mae'r cysylltiadau hyn yn mynd yn ôl i ddyddiau Dewi Sant a sefydlu'r eglwys Gymreig/Geltaidd hynafol yn Oes y Seintiau. Ar yr un pryd, mae gwersi'r gorffennol o wrth-Semitiaeth a'i heffaith ar y gymuned Iddewig ag uniongyrchedd i'n gwleidyddiaeth heddiw. Rwy'n cynrychioli Tredegar, tref lle y cynhaliwyd terfysgoedd gwrth-Iddewig ym 1910. Mae hyn yn rhywbeth sy'n dal i effeithio ar y dref a'i hunanganfyddiad. Mae'r ddadl wleidyddol yng Nghymru ac mewn mannau eraill ledled y DU yn ddiweddar wedi gweld gwrth-Semitiaeth ymosodol a mwy o ymosodiadau ar y gymuned Iddewig. Rwyf am gymryd fy rhan wrth feithrin cysylltiadau â'r gymuned Iddewig yn fy etholaeth fy hun ac ar draws Cymru.

Rwy'n credu y gall y Cynulliad Cenedlaethol wneud gwahaniaeth a helpu i feithrin cysylltiadau rhwng pobloedd. Er nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol y cyfrifoldebau dros faterion rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol, mae gennym y strwythurau, y profiad a'r gallu i weithio ochr yn ochr â phartneriaid eraill i helpu i ddatblygu rhaglenni a all gynyddu'r ddealltwriaeth rhwng pobl Israel a phobl Palesteina. Byddai hyn yn gyfraniad enfawr at heddwch. Mae hyn yn fwy na'r broses heddwch gwleidyddol – mae'n cynnwys heddwch dyfnach a mwy sylfaenol rhwng cymunedau a phobloedd. Rwy'n gobeithio y gallai cyfle newydd i drafod sut y gellir cyflawni hyn fod yn un o ganlyniadau'r ymweliad hwn.

**Alun Davies AC**
**Blaenau Gwent**